

YesCymru – ymateb Cristnogol

Efallai y bydd rhai o ddarllenwyr *Cenn@d* wedi clywed adroddiadau newyddion yn ddiweddar yn sôn am densiynau a ffraeo oddi mewn i fudiad YesCymru. Bydd y darllenwyr sy'n aelodau efallai wedi derbyn gohebiaeth yn sôn am yr ymddiswyddiadau, y cyfarfodydd brys a'r hyn mae'r pwyllgor gwaith yn bwriadu ei wneud i ddod â heddwch yn ôl i'w rhengoedd.

Mae'n ymddangos bod y tensiwn sydd wedi ei amlygu ei hun oddi mewn i'r mudiad yn rhyw gymysgfa o wahaniaethau ideolegol a gwahaniaethau o ran personoliaethau. Nid yw'n syndod fod y fath densiynau'n bodoli mewn mudiad sy'n gymharol ifanc ac wedi tyfu i fod ag aelodaeth o 18,000 mewn cyfnod byr iawn. Gofynnwyd i mi lunio rhyw fath o ymateb Cristnogol i'r datblygiadau gan un o olygyddion *Cenn@d*, felly dyma fentro rhannu fy ymateb.

Beth yw *raison d'être* YesCymru?

Ymddengys fod y prif densiwn ideolegol o fewn y mudiad yn deillio o'r cwestiwn sylfaenol hwn: beth yw pwrpas YesCymru? I rai, mae'r ateb yn un syml iawn, sef ymgyrchu dros annibyniaeth i Gymru heb fentro mynegi barn na llunio polisiau ar unrhyw fater arall. Y syniad yw cadw ffocws ar y nod wrth geisio creu mudiad mor eang â phosib ei apêl. Nid nad oes gan y rhai sy'n credu'r safbwynt hwn farn am faterion eraill, ond credant mai sgwrs i'w chael ar ôl ennill annibyniaeth yn pob mater arall.

Fodd bynnag, mae rhai aelodau'n credu fod yn rhaid i YesCymru fynegi barn a llunio polisiau ar ystod eang o faterion er mwyn gallu gwneud y ddadl dros annibyniaeth. Hynny yw,

er mwyn gwerthu'r weledigaeth o Gymru annibynnol, rhaid darlunio i bobl sut Gymru fyddai'r Gymru honno. Er bod rhai wedi ceisio darlunio'r ddadl ideolegol yma fel un y "dde" yn erbyn y "chwith" o fewn YesCymru, mae hynny'n gorsymleiddio'r peth mewn gwirionedd.



Sut felly y gallwn ni fel Cristnogion ymateb i'r ddadl ideolegol? Yn gyntaf, rhaid i ni holi a yw annibyniaeth i Gymru, i'r Cristion beth bynnag, yn gallu bod yn nod ynddo'i hun? Tybed a yw dyrchafu'r nod i'r lefel uchel hon yn disgyn i'r fagl o wneud y genedl, neu o leiaf y syniad o annibyniaeth i'r genedl, yn eilun? Credaf fod y peryglyno. Os ydypoblyn dadlau fod raid i ni gyrchu tuag at y nod beth bynnag fo'r gost, yna, fel Cristnogion, dylem fod yn wylidwrus iawn. Er fy mod yn credu fod annibyniaeth i Gymru yn nod y medr ac y dylai'r Cristion ei ewyllysio, rhaid i'n cefnogaeth fod yn isradd ac yn atebol i alwadau uwch teyrnas Dduw hefyd er mwyn gwarchod ein cenedlaetholdeb rhag bod yn eilunaddolgar.

Yna, beth am ymateb y Cristion i'r rhai sy'n credu y dylai YesCymru fynegi barn a llunio polisiau fyddai'n darlunio'r math o Gymru y gallai'r Gymru annibynnol fod? Fel Cristnogion rydym yn cario

ysbryd yr hen broffwydi oedd yn cynnig beirniadaeth o bwerau ac awdurdodau anghyfiawn eu dydd ac yn dewis codi llais dros y tlawd, y gorthrymedig a'r di-lais. Mae yna egwyddor Feiblaidd gyffredinol yn bodoli sy'n dweud na ddylai un genedl reoli cenedl arall gan mai'r patrwm Beiblaidd yw amrywiaeth cenedloedd a diwylliant ac nid unfurfiaeth ymerodrol. Mae'r egwyddor gyffredinol yna'n golygu y gellid dadlau fod annibyniaeth i Gymru yn gallu bod yn rhywbeth da ynddo'i hun. Ond, i Gristnogion, credaf fod y ddadl yn cael ei chryfhau, ac nid ei gwanhau, wrth i fudiadau fel YesCymru ddarlunio pa fath o Gymru allai'r Gymru annibynnol fod – sef un decach a mwy blaengar, gobeithio.

Y pwynt olaf wrth ystyried ideoleg y mudiad yw lle hawliau pobl o fewn y mudiad a'r Gymru annibynnol. Ymddengys fod llawer o'r ffraeo ymhlith aelodau YesCymru yn deillio'n rhannol o wahaniaeth barn ar bwnc hawliau'r gymuned LGBT+. Cred rhai aelodau y dylai YesCymru ddatgan yn glir a chroyw ei gefnogaeth i hawliau pobl LGBT+ tra bo eraill yn dadlau nad busnes YesCymru yw dweud dim am y mater, gan gadw'r ffocws ar annibyniaeth i Gymru. Eu dadl yw mai yn y Gymru annibynnol y cawn drafod cwestiynau fel hyn. Er mwyn gwerthfawrogi pam mae tensiynau o gwmpas y cwestiwn hwn wedi tanio, ystyriwch am eiliad fod rhywun yn dweud wrthyhych na ddylai YesCymru gael polisi ar hawliau siaradwyr Cymraeg, a bod croeso o fewn YesCymru i bobl wrth-Gymraeg, cyhyd â'u bod yn cefnogi annibyniaeth. Yna, wrth ystyried hynny, mae rhywun yn gallu dechrau deall pam mae'r gymuned LGBT+ wedi brwydro mor danllyd i gael YesCymru i gymryd safbwynt ar gwestiwn hawliau.

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

YesCymru – ymateb Cristnogol

(parhad o dudalen 1)

Beth am ddiwylliant gwleidyddol YesCymru?

Beth bynnag am gwestiynau ideolegol YesCymru, mae'n amlwg fod problemau dwfn o ran ei ddiwylliant mewnol. Mae un pwyllgor gwaith ar ôl y llall wedi methu cyd-dynnu a thrafod gwahaniaethau mewn ffordd adeiladol. Mae yna hanes hir o swyddogion yn cael eu gwahardd neu'n ymddiswyddo. Ac i'r rhai sy'n gweld y ddrama fel un rhwng y "dde" a'r "chwith", yna mae tystiolaeth yn awgrymu fod ymddygiad y ddwy ochr wedi bod cyn waethed â'i gilydd ar wahanol adegau ar lefel ryngpersonol. Beth felly am yr ymateb Cristnogol i'r diwylliant tocsig yma?

Lle da i ddechrau yw ystyried egwyddor sydd wedi cynnal mudiad arall o fewn y mudiad cenedlaethol ers bron i 60 mlynedd bellach, sef Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Yr ideoleg sy'n greiddiol i ddiwylliant y mudiad hwnnw yw'r "dull di-drais", slogan sy'n cael ei gysylltu yng ngolwg llawer â dim byd mwy na gweithredoedd o fandaleiddio fel rhan o ymgyrch. Ond mewn gwirionedd mae'n egwyddor lawer dyfnach sydd, rwy'n credu, wedi gweithredu fel llinyn arian i Gymdeithas yr Iaith Gymraeg dros y blynyddoedd, diolch i Gristnogion o'i mewn fel y bytholwyrdd Ffred Ffransis. Tu ôl i'r egwyddor yma mae yna dri phen, sef (1) dim trais corfforol, (2) dim trais geiriol a (3) dim trais calon. Nid yw YesCymru wedi mynd i gyfeiriad trais corfforol ond, yn drist iawn, mae wedi syrthio i

gamwedd ar y ddau bwynt arall. Mae yna drais geiriol a thrais calon difrifol wedi digwydd o fewn y mudiad, ac mae angen cymod ac iachâd.

Medr rhywun gael yr ideoleg orau a'r angerdd mwyaf, ond heb gariad bydd y cyfan yn syrthio'n ddarnau. Caiff yr Apostol Paul y gair olaf: 'Os llefaraf â thafodau meidrolion ac angyllion, a heb fod gennyf gariad, efydd swnllyd ydwyf, neu symbal aflafar. Ac os oes gennyf ddawn proffwydo, ac os wyf yn gwybod y dirgelion i gyd, a phob gwybodaeth, ac os oes gennyf gymaint o ffydd nes gallu symud mynyddoedd, a heb fod gennyf gariad, nid wyf ddim.' (1 Corinthiaid 13:1-2)

Parch Ddr Rhys Llwyd
Caernarfon

S4C yn lansio Emyrn i Gymru 2021

Fel rhan o ddathliadau pen-blwydd y gyfres eiconig *Dechrau Canu*, *Dechrau Canmol* yn 60 oed, mae S4C am ofyn i'r gwylwyr i bleidleisio dros eu hoff emyn.

Bydd y cyflwynydd Huw Edwards yn dathlu'r garreg filltir fawr mewn rhaglen arbennig o *Dechrau Canu*, *Dechrau Canmol* o Neuadd Dewi Sant, Caerdydd, yn yr hydref pan fydd Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn cyfeilio i'r emynau, a Huw yn cyhoeddi canlyniad y pôl piniwn trwy ddatgelu 10 Uchaf Hoff Emyrnau Cymru.

Mae panel o arbenigwyr eisoes wedi llunio rhestr hir o 20 emyn poblogaidd, ac mae gofyn i'r gwylwyr nawr bleidleisio dros eu hoff emyn. Yn rhan o'r panel yr oedd Dr Rhidian Griffiths, Huw Tregelles Williams, Delyth Morgans Phillips, Rhiannon Lewis, Trystan Lewis, y Parchedig Rob Nicholls, Rhodri Darcy, y Parchedig John Gwilym Jones, Catrin Angharad Jones, Mererid Hopwood, John S Davies a Karen Owen.

Mae modd pleidleisio ar wefan s4c.cymru/dechraucanu ac mae'r dyddiad cau am hanner nos ar 30 Awst 2021. Os nad ydych yn gallu pleidleisio ar-lein, yna cysylltwch â chwmni Rondo: 029 2022 3456.

Mae *Dechrau Canu*, *Dechrau Canmol* yn un o gyfresi mwyaf hirhoedlog S4C, ac fe'i darlledwyd gyntaf gan y BBC yn 1961. Llwyddodd y gyfres i ysbrydoli cyfresi eraill yn Saesneg, megis *Songs of Praise*, y dechreuwyd ei darlledwyd yn hwyrach yr un flwyddyn. Mae *Dechrau Canu*, *Dechrau Canmol* yn parhau i fod yn un o raglenni mwyaf poblogaidd S4C.

Meddai Huw Edwards: 'Mae gen i farn bendant iawn ar yr emyn gorau! Tybed a fydd pobl Cymru yn cytuno? Dyma gyfle arbennig i

ddathlu elfen bwysig o'n diwylliant, a gwneud hynny gyda chymorth miloedd o wylwyr S4C. Edrychaf ymlaen at ddatgelu'r canlyniad a llywio'r dathlu yn Neuadd Dewi Sant yn yr hydref.'

Mae'r rhestr hir o ugain emyn yn cynnwys:

Arwelfa	Arglwydd, gad im dawel orffwys
Blaenwern	Tyred, Iesu, i'r anialwch
Bro Aber	O tyred i'n gwaredu, Iesu Da
Bryn Myrddin	Mawr oedd Crist yn nhragwyddoldeb
Builth	Rhagluniaeth fawr y nef
Clawdd Madog	Os gwelir fi, bechadur,
Coedmor	Pan oedd Iesu dan yr hoelion
Cwm Rhondda	Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd
Dim ond Iesu	O fy Iesu bendigedig
Ellers	Pan fwyf yn teimlo'n unig lawer awr
Godre'r Coed	Tydi sy'n deilwng oll o'm cân
Gwahoddiad	Mi glywaf dyner lais
In Memoriam	Arglwydd Iesu, arwain f'enaid
Pantfyfedwen	Tydi a wnaeth y wyrth, O Grist fab Duw
Penmachno	Ar fôr tymhestlog teithio rwyf
Pennant	Dyma gariad fel y moroedd
Rhys	Rho im yr hedd
Sirioldeb	Un fendith dyro im
Tyddewi	Mi dafla maich oddi ar fy ngwar
Tydi a roddest	Tydi a roddest liw i'r wawr

Idris Charles Williams, 1947–2021

Argraffiadau ac atgofion am y diddanwr a'r Cristion adnabyddus Idris Charles, a fu farw ar 7 Gorffennaf



'Cael pobl i chwerthin efo'i gilydd'

Fel brodor o Bodffordd fy hun, dyma ychydig atgofion am y diddanwr hwyliog. Roedd Idris yn un o nifer o fechgyn hŷn yr ardal y byddem ninnau – y criw iau – yn eu gwyllo fel glasanciau ansicr. Fo oedd yn hel plant at ei gilydd fel y Pibydd Mwyn hwnnw o Hamelin. Idris gychwynnodd dîm pêl-droed y pentre – dod â bechgyn at ei gilydd.

Roedd yn mynychu Capel y Gad (Bodffordd) fel pawb arall ohonom, lle roeddem yn cael ein trwytho yn yr Ysgrythur Lân. Roedd 'na lawer o fynd ar yr Ysgoldy, canolfan ddiwylliannol y pentre Cymraeg. Idris oedd yn trefnu ac yn arwain cyngerdd gan y bobl ifanc i gasglu arian i gael organ newydd i'r capel – dod â phobl ifanc at ei gilydd.

Idris wnaeth gychwyn a sefydlu gwasanaeth bore Nadolig yng Nghapel Gad. Cael caniatâd i ymprydio yn yr Ysgoldy ac yna mynd ati i berswadio'r blaenoriaid y dylid dathlu pen-blwydd ein Gwardedwr bob bore ar 25 Rhagfyr. Gydag ambell eithriad, mae'r traddodiad hyfryd hwn yn parhau – dod â Christnogion at ei gilydd.

Credai, yn ôl ei natur â'i wên yn ymbelydru, fod hiwmor yn tynnu cynulleidfa i wrando. Cofiaf iddo ddod o'r Wyddgrug i bregethu yn Nhreffynnon. Gweld syndod ar wynebau'r oedolion wrth iddo ymestyn i'w fag, tynnu platiu

mawr ohono, eu clincian hefo'i gilydd. Yna, yn gelfydd, eu cyfnewid am blatiau tebyg – rhai papur y tro hwn, a'u taflu i'r gynulleidfa! Rhai'n sgrechian a'r plant yn chwerthin yn braf! Ia, dangos y gwahaniaeth rhwng y gau a'r gwir – cael pobl i chwerthin hefo'i gilydd.

Y tro olaf i mi weld Idris oedd rhyw fis yn ôl mewn gwasanaeth Zoom fore Sul yng Nghapel Gad Newydd. Roedd Idris yn siarad â ni o'i wely yn yr ysbyty. Beth oedd yn nodweddiadol amdano oedd ei wên hyfryd, er ei fod ar y peiriant arennau.

'Dwi mor falch o fod yn eich cwmni yn y gwasanaeth yma,' meddai. 'Ma hi 'run fath â bod yn yr ysgol Sul yn Gad ers talwm – dwi'n cael bendith fawr.'

Rhyfedd meddwl, fel Alpha ac Omega, fod capel Gad wedi bod yn gyfrwng mor ddylanwadol yn ei fywyd, o'r dechrau i'r diwedd, a'i wneud yn Idris, Cristion go iawn.

Geraint Jones, Treffynnon




Siwtiau duon oedd gan bregethwyr yr adeg honno, nid rhai gwynion!

Y tro cyntaf i mi weld Idris Charles, y pregethwr, oedd ar lwyfan Festri Fawr Salem, Pwllheli. Dyna lle roedd yn ei 'wisg wen' yn traethu.

Roedd y Parch Meirion Lloyd Davies wedi fy ngwahodd i rali Gristnogol dan arweiniad criw o bobl ifanc o ardal Bangor ac Ynys Môn. Ar y pryd, roeddwn wedi mynd oddi ar y rêls, a'm gweinidog, Mr Davies, yn meddwl y byddai dos da o grefydd yn llesol i mi! Roedd hi'n noson oer yng nghanol gaeaf. Doedd gen i fawr ddim arall o bwys ar y gweill, felly dyma benderfynu mynd, yn y gobaith y byddai ambell hogan ddel yno hefyd!

Cefais dipyn o sioc, a dweud y lleiaf, pan welais y criw, eu bod i gyd yn rhyw hapus ac yn fodlon eu byd. Roedden nhw'n medru chwerthin efo'i gilydd! Roedd yn amlwg iawn i mi eu bod yn mwynhau eu crefydd. Cododd hyn ryw chwilfrydedd mawr ynof. Yn y man, daeth Idris i'r llwyfan. Cofiw'n hyn hyn



mewn noson lawen ar lwyfan Neuadd y Dref, Pwllheli, yn dweud jôcs! Yna, yn ei ffordd annwyl, hwyliog, hawdd ei deall a gafaelgar, dechreuodd sôn am Iesu Grist. Heb flewyn ar ei dafod, dywedodd ei fod yn Ei adnabod – adnabod Duw! Adnabod Duw? Roedd fy chwilfrydedd yn cynyddu fwyfwy!

Mynychais sawl cyfarfod yn dilyn y tro cyntaf hwnnw. Yn ystod gweddi gan Idris yn un o gyfarfodydd rali yn Neuadd Cricieth, fe brofais innau hefyd faddeuant Duw, a hynny mewn ffordd real iawn. Roeddwn yn ymwybodol iawn o bresenoldeb Duw yn fy sicrhau Ei fod wedi maddau fy mhechodau. Cofiaf eistedd yn syfrdan ar y bws adref y noson honno a rhai o genod Aber-soch yn holi beth oedd yn bod arnaf. Wnes i ddim eu hateb. Ychydig a wyddent mai hon oedd y noson a fyddai'n newid llwybr fy mywyd am byth!

Mae fy niolch a nyled yn fawr i Mr Davies, am fy annog i fynychu'r cyfarfod cyntaf hwnnw. Mawr yw fy niolch i Idris a'i siwt wen yn ogystal! Defnyddiodd Duw yr hogyn hwn o Fôn i agor llygaid a meddalau calon rebel fel fi, fel fy mod innau hefyd yn cael profi maddeuant Duw, trwy ras ein Harglwydd Iesu Grist.

Parch Gwyn Rhydderch, Tudweiliog

Mae lle i adael atgofion am Idris Charles ar wefan [er cof amdano](#). Yno hefyd, fe ellir dilyn dolen at ddarllediad byw o'i angladd.

Eisteddfod Rithiol Cenn@d 2021 – cystadleuaeth emyn ar y thema ‘Gobaith’

Daeth chwe emyn ar y thema ‘Gobaith’ i law, a doedd yr un ohonyn nhw’n emynau gwan. Dwi ddim yn dweud hyn er mwyn gwneud i’r awduron deimlo’n well amdanynt eu hunain, nac ychwaith er mwyn ichi gredu fy mod i’n feirniad bach neis! Diolch i’r chwech am gystadlu ac am gyfleu’r gobaith sydd ynom ni Gristnogion ac sy’n eiddo i ni wrth ddilyn ein Harglwydd a’n Gwardedwr.

Dyma’r tri uchaf yn fy nhyb i:

Yn y trydydd safle, rwy’n gosod ‘Gwawr’. Emyn tri phennill (87.87.47) sy’n weddi ar i Dduw gynnal pobol mewn angen. Mae’r emyn wedi’i strwythuro’n ofalus ac yn adeiladu’n dda, gyda’r diweddglo hyn i’r penillion: ‘Dduw ein gobaith / Cofia angen teulu dyn’, ‘Dduw ein gobaith, / Cofia dristwch teulu dyn’, a ‘Dduw ein gobaith, / Cofia ofid teulu dyn’.

‘Dyro Anadl’ sy’n dod i’r ail safle. Emyn pedwar pennill swmpus (87.87.D.) ar gyfer gwasanaeth awyr agored. Dyma emyn sydd felly yn ateb diben penodol, ac yn sicr, os yw patrwm yr haf hwn i barhau, bydd croeso mawr i’r emyn. Gobeithio’n wir y caiff ei gyhoeddi a’i ddefnyddio mewn gwasanaethau awyr agored – ac mae digon o donau cyfarwydd addas ar y mesur.

‘Abergele’ sy’n dod i’r brig. Dyma un o emynau mwyaf twt y gystadleuaeth: tri phennill ar y mesur 11.11.11.11. Yr hyn a’m trawodd i oedd symrlwydd a chynildeb y geiriau. Nid oes yma ymgais i fod yn farddonol na defnyddio trosiadau diangen. Mae’r emyn yn canolbwyntio ar y gobaith a ddaw i ni oherwydd i lesu farw drosom ar y Groes, a’i atgyfodiad. Dyma emyn sy’n Grist-ganolog, yn Feibl-ganolog, ac felly’n emyn na fydd yn dyddio. Diolch i’r emynydd am ein hatgoffa fod lesu gyda ni ar ein taith, pa rwystrau bynnag a wynebwn: ‘Yr lesu sy’n dyfod i dreiglo pob maen; / Ble bynnag y crwydrad, mae yno o’m blaen’. Amen!

Delyth Morgans Phillips

Mae egin y gwanwyn yn obaith i gyd
Er gwaetha holl ddrain a mieri fy myd;
Ond lesu ’ngwardedwr a’m harwain drwy’r rhain –
Daeth Ef i’w ogoniant dan goron o ddrain.

Mae’r byd mor ddiostur mewn gwewyr a chur,
A’i sŵn yn morthwylio yr hoelion o ddur.
Ond lesu ’ngwardedwr yn ddistaw a ddaw,
A briwiau yr hoelion ar gledr ei law.

Bob dydd ar fy llwybr mae maen tramgwydd mawr
Ond draw mae gorfoledd a golau y wawr –
Yr lesu sy’n dyfod i dreiglo pob maen;
Ble bynnag y crwydrad, mae yno o’m blaen.

Ffugenw: Abergele

Emyn ar gyfer Gwasanaeth Awyr Agored

Arglwydd, derbyn ein gweddïau
Taer yn erfyn am dy ras,
Ti yw llyw y cwmwl tystion
Sy’n crynhoi dan awyr las,
Nid wrth allor ein cynefin
Troesom atat, dirion Dad,
Yn blygedig edifeiriol
Am gael sêl maddeuant rad.

Diolch iti, Dad daionus,
Am un gysegredig awr
I gyflwyno’n diolchiadau
Ar lawnt las dy gread mawr.
Ti ddarperaist inni ddaear
Y tu hwnt i’th Eden werdd,
Canwn am ei llu bendithion,
I gyfeiliant adar cerdd.

Gad in deimlo nerth dy anadl
Arnom o’r ucheldir, Dduw,
Bererinion ar y mynydd,
Cwrdd ein darostyniad yw.
Dyro brawf o’r Ysbryd Sanctaidd
Mewn ysgytiol chwa o wynt
Megis grym y bryncyn gododd
O dan droed ein nawddsant gynt.

Diolch, Arglwydd, am ein cymell
O awyrgylch cartref clyd
Fel y bobloedd gynt yng Nghanaan
Rhag trybestod ffôl y byd.
Mi gawn ddychwel gyda’r glesni
Wedi cadanhau ein ffydd
Gyda gobaith am ledaenu
Gras dy Deyrnas Di bob dydd.

Ffugenw: Dyro Anadl

Er pob salwch a phob gwendid
Ddaw i’n llethu ar ein taith,
Diolch(wn) am bob darganfyddiad
Ac ymroddiad llwyr i’r gwaith.

Dduw ein gobaith,
Cofia angen teulu dyn.

Er pob siom a phrofedigaeth
Ddaw’n ei dro i beri loes,
Diolch(wn) am bob nerth a chysur
Sy’n ein cynnal drwy ein hoes.

Dduw ein gobaith,
Cofia dristwch teulu dyn.

Er pob poen a digalondid
Ddaw i’r golwg bob un dydd,
Diolch(wn) am gefnogaeth gweithwyr
A rydd inni gryfder ffydd.

Dduw ein gobaith,
Cofia ofid teulu dyn.

Ffugenw: Gwawr

Mae cymdeithas angen gobaith
Allan o’r hen ofid hir;
Gawn ni weld Ei ras ar gerdded?
Gallu’r Ysbryd drwy ein tir?

Crist o’i gariad sydd yn gryfach
Na dim arall sydd yn bod;
Grym Ei Air a’n gwna yn nerthol
Pan rown lldo ein holl glod.

Cynnwys eraill yn ein gweddi,
Gweld eu hangen gerbron Duw;
Fe sancteiddir pob cydweithio
Drwy Ei Fab sydd wrth y llyw.

Nid oes le i raib na gormes
Na’r un celwydd, twyll, na thrais;
Gras yn unig fo’n cymhelliant,
Teg a gonest fo ein llais.

Clywaf nodau hyfryd, tawel
Yn ymdreiddio drwy y wlad
Wrth i bobol droi at lesu,
A gwneud ’wyllys Duw, Ein Tad.

Ffugenw: DW

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

Ein Tad, dy rodd o'n Ceidwad Frawd,
ei breseb llwm, ei deulu tlawd
a ffodd rhag cleddyf llym yr oes,
sy'n meithrin ynom obaith taer
i gynnal egwan frawd a chwaer;
wrth gofio'i ddrudfawr loes.

Ein Tad, yng ngwres y fflamau tan,
tywallted purdeb d'Ysbryd Glân,
a bywiocaed eu twymdra'n ffydd
i ennyn gobaith trwy dy ras
a bendith rhag bob gelyn cas,
i'n gwneud yn weision rhydd.

Ein Tad, ein ffydd sy ynot Ti
i droi pob ofn sy ynom ni
yn hyder pur mewn byd o boen.
Ein gobaith rown mewn enfys liw,
tragwyddol nod d'addewid gwiw,
ein hernes gryf trwy waed yr Oen.

Ffugenw: Esperemos

O Arglwydd Dduw'r canrifoedd,
Tyrd atom yma 'nawr
Wrth gofio Dy ffyddlondeb
A'th holl ddaioni mawr.
Diolchwn am yr arwyr
Fu'n dystion gwir i Ti,
Eu haberth yw ein helw,
Ymlaen yr awn yn hy.

O Arglwydd Dduw'r blynyddoedd,
Dy gymorth rho i ni
I'th wasanaethu'n deilwng
Fel ein cyndadau ni.
Diolchwn am yr hyder
Roist yng nghalonau'r saint
I greu ein hetifeddiaeth
A saif yn fythol fraint.

O Arglwydd Dduw'r yfory
Defnyddia ni o hyd,
Arfoga ni â'th gariad
A gwna ni'n ddewr ein bryd.
Yn wyneb anawsterau
Rho gryfder ar y daith,
A gobaith i'r dyfodol
I'n cadw yn Dy waith.

Ffugenw: EWN

Yr enillwyr yw:

- 1 Abergele – John Eric Hughes, Abergele
- 2 Dyro Anadl – Vernon Jones, Bow Street
- 3 Gwawr – Eluned Edwards, Caerdydd

*Llongyfarchiadau i bawb,
a diolch am eich cefnogaeth.*

Open Doors – Rhestr Gwyllo'r Byd – adnoddau Cymraeg

1. Rhestr Gwyllo'r Byd Cymraeg

Mae copïau Cymraeg o'r adnodd rhagorol hwn ar ôl gennym – gennyf fi ac yn ein Swyddfa yn Rhydychen. Byddai'n wych gallu trefnu eu dosbarthu i Gristnogion Cymraeg eu hiaith ac eglwysi dros yr haf.

Rhowch wybod i mi os hoffech gael copïau ar gyfer eich eglwys, capel, grŵp gweddi, enwad neu rwydwaith. Gellir hefyd archebu copïau ar-lein trwy glicio ar y ddolen yma – <https://www.opendoorsuk.org/products/product/wwl21-welsh-top-50>

2. Fideo Rhestr Gwyllo'r Byd Open Doors 2021 – Y 10 Uchaf

Yn ddiweddar, cafodd y fideo Cymraeg hwn ei uwchlwytho i'n gwefan Vimeo. Felly, mae croeso i chi ei ddefnyddio mewn gwasanaethau neu grwpiau gweddi a.y.y.b. – <https://vimeo.com/571557197>

3. Adnodd i Ysgolion

Rwy'n falch o gyhoeddi y byddwn yn cynhyrchu fersiwn Gymraeg o'r adnodd hwn i ysgolion – <https://www.opendoorsuk.org/resources/world-watch-list/gcse/>

Bydd yn barod yn yr hydref ac mae CBAC wedi dweud eu bod yn hapus i roi dolen iddo ar eu gwefan. Rwy'n siŵr y bydd athrawon Cristnogol sy'n gweithio mewn ysgolion uwchradd Cymraeg yn gwerthfawrogi'r adnodd hwn, i'w ddefnyddio eu hunain neu adael i eraill wybod amdano. Mae croeso i chi gysylltu â mi os teimlwyd y gallwn eich helpu mewn unrhyw ffordd.

*Jim Stewart
Rheolwr Cysylltiadau
ag Eglwysi Cymru*



Open Doors UK & Ireland 01993 460 015, 07921 080 464 jims@opendoorsuk.org www.opendoorsuk.org

Yr Ysbryd Glân 6 – R Tudur Jones

Ffrwyth yr Ysbryd – Tangnefedd a Hirymaros



Dros yr haf fe fyddwn yn cyflwyno penodau o glasur R Tudur Jones, *Yr Ysbryd Glân*, a fu'n llyfr gosod i ddsbarthiadau oedolion yr Ysgol Sul ar gyfer 1972.

Yn y Beibl Cymraeg defnyddir y geiriau 'tangnefedd' a 'heddwch' i gyfieithu'r gair Groeg *eirene* (neu Irene pan ddefnyddir ef fel enw merch). Er enghraifft, pan ddywed Iesu Grist wrth y wraig a ddiodeffai gan ddiferlif gwaed, 'Dos mewn heddwch' (Mathew 5:34) neu pan ddywed Paul, 'y mae gennym heddwch tuag at Dduw' (Rhufeiniaid 5:1), yr un gair Groeg a ddefnyddir ag a geir yn rhestr ffrwyth yr Ysbryd yn Galatiaid 5:22. Felly, ni ddylid ceisio adeiladu dim ar y gwahaniaeth yn Gymraeg rhwng 'heddwch' a 'thangnefedd'.

Disgrifir Duw droeon fel Duw'r tangnefedd, er enghraifft, 'A Duw'r heddwch, yr hwn a ddug drachefn oddi wrth y meirw, ein Harglwydd Iesu Grist' (Hebreaid 13:20); cymharer Rhufeiniaid 15:33; 16:20; 1 Thesaloniaid 5:23). Argyhoeddiad sylfaenol trwy'r Beibl yw fod Duw'n ordeinio trefn. Rhwir y peth yn gryno gan Paul, 'Canys nid yw Duw awdur anghydfod, ond tangnefedd, fel yn holl eglwys y saint' (1 Corintiaid 14:33). Cyn iddo trwy ei waith creadigol roi trefn ar bethau, yr oedd hi'n afluniaidd (Genesis 1:2). Y tryblith oedd yn teyrnasu. Ond cynnyrch y Creawdwr yw'r drefn gymen sydd ar y greadigaeth. Ac yn y Salmau try'r drefn yn destun cân, fel yn Salm 104. Duw sy'n sicrhau'r ddaear ar ei sylfeini, yn gosod ei orchymyn i'r môr, yn palmantu ffordd i fellt y taranau, yn gwybod ordeiniadau'r nefoedd ac yn gosod ei lywodraeth ar y ddaear (Job 38:6, 10, 25, 33). Oni bai fod Duw'n teyrnasu, ni byddai trefn yn ei ymerodraeth. Naturiol wedyn wrth gyfarach pobl oedd dymuno eu bod yn mwynhau'r tangnefedd sy'n dod o gydnabod trefn Duw. 'Gras i chwi a thangnefedd oddi wrth Dduw ein Tad ni, a'r Arglwydd Iesu Grist' (Rhufeiniaid 1:7; cymharer 1 Corintiaid 1:3; 2 Corintiaid 1:2; Galatiaid 1:3; Effesiaid 1:2; Philipiaid 1:2).

Gwaetha'r modd, y mae anhrefn yn bygwth trefn Duw a'r ffurf fwyaf trist arno yw pechod dyn. Y peth a wna Duw yn ei iachawdriaeth yw arfer trefn. Y mae Sachariás, tad Iona Fedyddiwr, yn proffwydo y bydd ei fab yn paratou ffordd yr Arglwydd sy'n mynd 'i

gyfeirio ein traed i ffordd tangnefedd' (Luc 1:79). Ac 'Efengyl tangnefedd' – hynny yw, yr efengyl sy'n cyhoeddi fod Duw yn ei ras wedi trechu gwrthryfel afreolus dynion – yw un enw ar genadwri Gristnogol (Effesiaid 6:15 – cyfyngiad anffodus braidd oedd tybio mai ffordd i rwystro rhyfel oedd yn unig yw'r Efengyl fel yn emyn poblogaidd Eifion Wyn). 'Canys efe' – sef Iesu Grist – 'yw ein tangnefedd ni' (Effesiaid 2:14). Sail tangnefedd felly yw'r cymodi a wnaeth Crist trwy'r Groes. Efe a adferodd wir drefn creadigaeth Duw. Rhyngodd fodd i Dduw 'wedi iddo wneuthur heddwch trwy waed ei groes ef, trwyddo ef gymodi pob peth ag ef ei hun; trwyddo ef, meddaf, pa un bynnag ai pethau ar y ddaear, ai pethau yn y nefoedd' (Colosiaid 1:20). Wedi ein dwyn i mewn i'r drefn adferedig hon, 'y mae gennym heddwch tuag at Dduw, trwy ein Harglwydd Iesu Grist' (Rhufeiniaid 5:1).

Felly y mae 'tangnefedd' yn golygu trefn wrthrychol a adferwyd gan Iesu Grist a bu i'r Ysbryd Glân – fel y cawn weld – ran bwysig iawn yn y gwaith hwnnw. Ond trwy'r un Ysbryd Glân gosodir credinwyr mewn sefyllfa lle maent yn rhan o'r drefn adferedig. Daeth y gelynydd yn blant ac y mae'r Ysbryd yn 'cyd-dystiolaethu â'n hysbryd ni, ein bod yn blant i Dduw' (Rhufeiniaid 8:16).

Ac o ganlyniad y mae tangnefedd hefyd yn dawelwch meddwl. Mae'n golygu rhyddhad o'r pryder a'r ofn a'r cynnwrf ysbryd sy'n dod pan fo anhrefn yn teyrnasu. Mae'r Ysbryd Glân yn creu trefn fewnol yn ein personoliaeth sy'n cyfateb i'r drefn allanol sy'n ffrwyth buddugoliaeth Crist. 'Na ofelwch am ddim; eithr ym mhob peth mewn gweddi ac ymbil gyda diolchgarwch, gwneler eich deisiadau chwi yn hysbys gerbron Duw. A thangnefedd Duw, yr hwn sydd uwchlaw pob deall a geidw eich calonnau a'ch meddyliu yng Nghrist Iesu' (Philipiaid 4:6-7).

Perthyn hirymaros yn agos at dangnefedd. Un o ganlyniadau anhrefn ac ansicrwydd mewn cymdeithas, neu yn y meddwl, yw gweithredu byrbwyll a chwyrn. Yn eu hofn â pobl yn fyr eu tymer, yn afresymol eu

hagwedd. O wybod fod trefn Duw'n sefyll yn gadarn, fe'u hachubir rhagy gwendiau hyn. Mae hirymaros yn golygu mawrfrydigrwydd, amynedd a phwyll. Ac o ganlyniad mae pob gweithred yn dyner ac yn addas. Osgoir y demtasiwn i feddwl yn grebachlyd ac anhion. Neu mewn cyfnod pan yw Cristionogion yn wynebu amgylchiadau croes, y maent yn eu hwynebu gyda dewrder a dyfalbarhad.

Efallai mai'r wedd olaf hon ar hirymaros sydd fwyaf o angen ei phwysleisio'n awr. Mae Paul yn rhestru hirymaros 'yn yr Ysbryd Glân' fel un o'r grasau y mae ef a'i gydweithwyr yn eu dangos fel prawf eu bod yn weinidogion Duw (2 Corintiaid 6:6). Mae'n cyfnod ninnau'n un pan yw dynion yn cael cyfle arbennig i ddangos trwy hirymaros eu bod yn weinidogion Duw ac nid yn weision cyflog sy'n ffoi wrth weld y blaidd yn dyfod (Ioan 10:12). Y mae'r cyngor i Timotheus yn arbennig addas: 'Pregetha y gair; bydd daer mewn amser, allan o amser; argyhoedda, cerydda, annog gyda phob hirymaros ac athrawiaeth' (2 Timotheus 4:2). Ac yn arbennig felly pan na bydd cynulleidfaoedd eisau 'athrawiaeth iachus' ond yn ymhoffi'n hytrach mewn athrawon a fydd yn cynnig chwedlau iddynt yn lle'r gwirionedd (2 Timotheus 4:3,4).

Gwyddom pa mor barod ydym i weithredu'n fyrbwyll. Hawdd gennym lithro i'r atheistiaeth ymarferol honno sy'n ymddwyn fel petai Duw wedi gollwng ei afael ar yr awenau. Lluniwn bob math o gynlluniau i achub y sefyllfa heb roi fawr o sylw i'r cynlluniau y mae Duw ar hyn o bryd yn eu gweithredu. Rhuthrwn ar ôl pob math o ddysgeidiaeth ffasiynol yn union fel petai 'didwyll laeth y Gair' wedi suro. Y feddyginiaeth ar gyfer panig o'r math yma yw dibynnu ar yr Ysbryd Glân i feithrin ynom yr hirymaros sy'n llawn hyder yn y drefn a sefydlodd Duw eisoes ac yn llawn gobaith am weld Duw'n aeddfedu'i gynlluniau achubol yn ei amser da'i Hun.

Darlleniadau:

Y mae 'tangnefedd' yn yr Hen Destament (*shalom*) yn air cyfoethog sy'n cynnwys 'cyfanrwydd', 'iechyd', 'trefnusrwydd' a 'ffrwythlondeb' – fel y gwelir o astudio rhai o'r disgrifiadau hyfryd a geir mewn manau fel Eiseia 32:15-20; Eiseia 11:6-8; Amos 9:13-15; Jeremeia 31:31-4; Meica 4:1-4. Dyfnheir yr ystyr sydd i 'dangnefedd' yn y Testament Newydd trwy ei gysylltu â'r gras a'r iechydwrriaeth sydd yng Nghrist, e.e. 1 Corintiaid 1:3; 2 Corintiaid 1:2; Luc 1:79, 2:14; Ioan 14:27, 16:33; Effesiaid 2:14-18.

Ceir enghreifftiau o hirymaros yn Luc 9:51-6; Mathew 13:24-30; Luc 13:6-9.

Llyfrau:

Ceir astudiaeth nodweddiadol glir o ffrwyth yr Ysbryd gan William Barclay yn *Flesh and Spirit* (1962) a phregeth gymen gan Dr John Owen, Morfa Nefyn, yn *Pregethau* (1957), 85-97. Erthygl dda ar 'peace' yng ngeiriadur diwinyddol Bauer, ll (1970).

Sylw o'r seidin Cadair glan môr, gwarchodwr rhag y gwynt, a sandalau

Wel, gyfeillion, mae mis Awst wedi cyrraedd ac ambell un ohonoch o bosib wedi mentro ar *staycation*, ac amryw wedi manteisio ar babell, carafán neu pod ym Mhenllyn neu Ben Llŷn a llefydd tebyg. 'Carafán mewn cwr o fynydd' – neu Uwchmynydd – yn syllu'n freuddwydiol fin nos ar fachlud haul dros Enlli. Braf!

Ydy, mae'r ysfa am ryddid wedi gfael yn och ac rydych wedi pacio pob dim. Gadawsoch y cyfarwydd a'ch lloches gan anelu am draeth neu dyddyn neu drac i ben rhyw fynydd. Mae'ch 'maglau wedi eu torri' a'ch 'traed yn gwbwl rydd', ac mae hynny'n deimlad mor amheuthun.

Ydy, mae mis Awst yn fis lle mae llawer o eglwys yn dal i gredu fod Gweinidogion yn cymryd eu gwyliau, neu'n cael seibiant rhag eu bagad gofalon arferol. Bu rhai'n arfer diflannu i draethellau tramor am y mis, tra oedd eraill, lle bynnag yr oeddynt wedi mynd, yn rhyw disgwyl cael eu galw yn ôl i ymateb i alwad o'u gofalaethau. Peth dealladwy, mae'n siŵr, ond peth rhyfedd hefyd, a'r bugail ei hun angen gorffwys a hoe fel pawb arall. Dyna fo – y gwahaniaeth rhwng gwaith a galwedigaeth, mae'n debyg, oedd hynny.

Ond yn y man, wedi i'r Awst hwn basio, fe fyddwn yn edrych i gyfeiriad yr hydref, Diolchgarwch a'r Nadolig, a draw hefyd i'r Grawys a'r Pasg, a phopeth cydrhwng cerrig milltir ein calendr eglwysig. Byddwn yn gwneud asesiad risg unwaith eto wrth i ni geisio cynllunio ein gweithgarwch ar gyfer yr hydref a'r gaeaf. Credwn yn angerddol na adawodd Duw ei hun yn ddi-dyst mewn unrhyw oes, a'i fod eisoes ar y blaen i ni, yn ei arfaeth a'i ragluniaeth ar



Llun Pixnio

gyfer ei Achos a'i Deyrnas yn y byd. Ac os nad ydy hynny'n rhoi hyder newydd inni wynebu beth bynnag fydd yn dod i'n rhan ac yn gyfle newydd inni fanteisio arno, waeth i ni roi'r ffidil yn y to cyn dechrau.

Nid felly y bydd hi, gyfeillion. Na, rydan ni'n fwy na hynny – yn fwy ysbrydol, yn fwy argyhoeddedig ym mharhad yr eglwys Gristnogol, yng ngwaith a chyfraniad ffyddloniaid Duw ledled Cymru a thrwy'r byd yn grwn. Cofiwn a phwyswn ar eiriau Elfed mewn cyfnod a chyfle fel hyn:

Na foed cydweithwyr Duw
byth wrth eu gwaith yn drist
wrth ddwyn y meini byw
i'w dod i'n nhemel Crist:
llawenydd sydd, llawenydd fydd
i bawb sy'n gweithio 'ngolau ffydd.

Credaf yn fwy argyhoeddedig fyth fod yma gyfle inni estyn dwylo at ein gilydd yn lleol, wedi hyn oll o daith.

Bu trafodaeth frwd wrth gychwyn yr wythnosolyn hwn ynglŷn â rhyw ddiffyg trafod cyn cychwyn ar y fenter, a bod un

enwad wedi penderfynu aros yn fythol annibynnol fel ag erioed, fel petai ymuno yn y fenter rywsut yn mynd i beryglu unrhyw hunaniaeth i'r newyddiaduriaeth enwadol.

Daw cyfle'r hydref newydd hwn eto inni dynnu lawr y rhagfuriau, a llacio rheffynnau ein hen bebyll sydd eisoes yn cwhwfan yng ngwyntoedd croesion pob clo a chofid. Ond na foed i'n gofid ni am ollwng gafael ar ogoniannau'r gorffennol ein rhwystro rhag gweld gogoniannau anhygoel y dyfodol yn hanes eglwys a chapel Cymru. Daw cyfle inni gefnogi ein gilydd o'r newydd, i gynorthwyo ein gilydd i gerdded ymlaen – a gorau oll os gallwn, neu os gwnawn ni hynny law yn llaw, calon wrth galon a gwaedd uwch adwaedd yn enw Crist a'i Efengyl.

Geoffrey Davies ganodd yn ei emyn mawr, 'Wele deulu d'Eglwys, Iesu':

O diddyma'r ffiniau, Arglwydd,
sy'n gwahanu plant y llawr,
a rhyddha ni drwy dy Ysbryd
i gyhoeddi'r deyrnas fawr:
dyro inni weled heddiw
er terfysgoedd dynol-ryw,
groes yr Iesu'n unig obaith –
dan ei chysgod gad i'n fyw.

Dario a go drapia – mae'r llanw wedi troi!

Cadw'r gadair a'r gorchudd rhag y gwynt a bachu'r sandalau cyn gwlychu fy nhraed yn y dŵr. 'Llanw 'di troi,' ddeudis i?

Wel ie, a diolch byth am hynny. Rydan ni wedi treulio gormod o amser yn Ninas Dinlle ein diffyg gweledigaeth gan fethu gweld bod y llanw yn dod i mewn yn ogystal â llifo allan. 'Dewch inni wneud yn fawr ohono – mae'n gyfle rhy dda i'w gollu.

Ymlaen mae pob Canaan!

Jim Clarke
Llanfair-pwll

Eglwys y Bedyddwyr, Carmel Pontlliw ger Abertawe Oedfa Fedydd

Braint oedd bod yng Ngharmel ar fore Sul hyfryd o haf ar ddechrau Mis Awst i dystio i fedydd y brawd Jonathan Davies. Roedd cynulleidfa deilwng wedi dod i'r oedfa yn y capel, ac fe ymunodd eraill wrth y fedyddfan, sydd y tu allan, wedi'r gwasanaeth. Hyfryd oedd croesawu nifer oedd yno am y tro cyntaf ers cychwyn y cyfnod clo. Dymunwn pob bendith i Jonathan ar gychwyn ei siwrnai fel disgybl i'r Arglwydd Iesu.

Y Parchedig H. Vincent Watkins, Gweinidog



Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Efelychwyr Duw

Emyn 502 – ‘Arnat, Iesu, boed fy meddwl’

Darlenniad 1

Salm 130 – ‘O’r dyfnderau y gwaeddaais arnat, O Arglwydd’

Gweddi

Arglwydd, clyw fy llef, bydded dy glustiau’n agored i lef fy ngweddi. Mawr yw ein rhyfeddod nad wyt yn ymwneud â ni yn ôl ein haeddiant, ond yn ôl cyfoeth dy ras yn Iesu. Ynndo ef, fe’n gwisgir â’i gyfiawnder, ein natur ddynol newydd. Disgwyliwn yn eiddgar amdanat a galwn arnat i’n cyfarfod a’n tywys allan o’n trybini presennol. Ynot ti mae’n gobaith ni. Amen.

Darlenniad 2

Effesiaid 4:17–5:2 – ‘Efelychwyr Duw’

Myfyrdod

Peidio â byw fel y mae’r Cenhedloedd yn byw – tybed a yw’r geiriau yma gan Bantycelyn yn adleisio yn eich calon: ‘Mae rhyw hiraeth ar fy nghalon / am gael ffoi o dwrf y byd?’

Rhaid cyfaddef weithiau fod yr ‘oferedd meddwl’ a dieithrwrch ‘i’r bywyd sydd o Dduw’ (Effesiaid 4:17,18), sydd o’n cwmpas bob dydd, yn medru ein tynnu i lawr ar brydiau. Does ryfedd i iaith y pererin fod yn gyfrwng i ddisgrifio profiad y Cristion yn y byd. Mae’r Salmydd wedi canfod: ‘y mae gyda Thi faddeuant, fel y’th ofner’, a dyma yw ein tystiolaeth ninnau hefyd. Anodd yw gweld eraill yn gwrthod y gwrthrych ‘teilwng o’m holl fryd’.

Ond nid rhyw ddihangfa o’r byd yw’r Efengyl y mae Paul yn ei disgrifio i ni, ond natur newydd i’n galluogi i fyw yn fwy na choncwerwyr wrth rodio ynddi.

Nid Rheolau ond Bywyd Newydd

Mae’r is-deitl sydd yn y BCND yn anffodus braidd, ac yn bwydo i’r camfeddylfryd mai ymdrech i gadw rheolau yw bywyd y Cristion. Fe gofiwch, efallai, y cwestiwn yn y Rhodd Mam, ‘Pa sawl math o blant sydd? Plant da a phlant drwg.’ Magwyd cenedlaethau o Gymry i feddwl nad oeddent yn blant da a bod raid trio’n galed i fyw yn ôl rheolau moesol llym. Wrth gwrs, mae’n wir nad ydym yn ddigon da, ond meddyginiaeth Crist yw rhoi natur newydd

sbon yn gyfnedig am yr hen, ac nid ein cystwyo a’n cywilyddio. Yr ymdrech i ni, yn aml, yw derbyn ein ‘hadnewyddu mewn ysbryd a meddwl a gwisgo *amdanom* y natur ddynol newydd sydd wedi ei chreu ar ddelw Duw, yn y cyfiawnder a’r sancteiddrwydd sy’n gweddu i’r gwirionedd’ (4:23–4).

Y siars yw i ni fyw’r bywyd newydd oherwydd beth wnaeth Iesu i ni, sef ystyr y ‘gan hynny’ ar ddechrau adnod 24. Wrth ‘roi heibio’r hen natur ddynol oedd yn perthyn i’ch ymarweddiad gynt’ a gwisgo’r natur newydd, fel hyn y dylem fyw. Yr hyn sydd yn adnodau 25–32 yw disgrifiad o ffrwyth y bywyd newydd, fel y dywedodd Iesu: ‘Felly y mae pob coeden dda yn dwyn ffrwyth da, a choeden wael yn dwyn ffrwyth drwg’ (Mathew 7:17). Mae Paul yn ymhelaethu ar hyn yn Galatiaid 5, e.e. ‘Dyma yr wyf yn ei olygu: rhodiwch yn yr Ysbryd, ac ni fyddwch fyth yn cyflawni chwantau’r cnawd’ (Galatiaid 5:16) ac fe â ymlaen i ddisgrifio cynnyrch y cnawd a ffrwyth yr Ysbryd (5:16–26).

Ymaith â chelwydd

Wel dyma air i herio’n hoes ni: ‘Ymaith â chelwydd’. Nid dim ond ‘peidiwch â dweud celwydd’ sydd yma ond popeth ffals, popeth nad yw’n ‘gyfiawnder a’r sancteiddrwydd sy’n gweddu i’r gwirionedd’ (Effesiaid 4:24). Mae’r gwirionedd yng Nghrist, a rhaid i fy mywyd adlewyrchu’r gwirionedd yma.

Mae’r dywediad ‘Hysbys y dengys dyn o ba radd y bo’i wreiddyn’ yn gymorth i ddeall neges Paul, sef mai’r hyn sydd yng ngwaelod ein bod a ddaw i’r wyneb yn ein byw. O ddychwelyd at ei ddelwedd ar ddechrau’r bennod, y dylem rodio’n deilwng o’n galwad (4:1 BWM): rwy’n byw’r hyn rwy’n ei gredu.

Nid rhestr o ‘reolau i mi eu cadw’ sydd yma; yn hytrach, mae’n brawf o bwydydwyf i yng Nghrist: ‘**Peidiwch â thristáu Ysbryd Glân Duw**, yr Ysbryd y gosodwyd ei sêl arnoch ar gyfer dydd eich prynu’n rhydd ... Byddwch yn dirion wrth eich gilydd; **yn dyner eich calon**, yn maddau i’ch gilydd fel y maddeuodd Duw yng Nghrist i chwi’ (31–2). Mae’r cyferbyniad yma yn eglur â’r rhai mae’n eu disgrifio yn adnod 19: ‘Pobl

dynt sydd **wedi colli pob teimlad** ac wedi ymollwng i’r anlladrwydd sy’n peri iddynt gyflawni pob math o aflendid yn ddiymatal’ (‘They have lost all sensitivity’, ESV). Wrth gadw ein calon yn dyner tuag at Dduw, rydym yn byw yn dyner â’n gilydd.

Efelychu fel plant annwyl

Flynyddoedd yn ôl, roedd dynwaredwyr yn beth mawr ym myd adloniant. Rwy’n cofio un yn arbennig, o’r enw Mike Yarwood. Ar ddiwedd ei raglen, lle bu’n gwisgo amdano debygrwydd a llais rhai adnabyddus o’r cyfnod, mi fyddai’n troi at y camera ac yn dweud, ‘And this is me’, ac yn cloi gyda chân.

Fe all dynwared fod yn ddoniol neu’n sbeityld, ond nid dyna sydd gan Paul yma. Daw’r gair a gyfieithir yn ‘efelychwyr’ yma o’r gair Groeg ‘mimic’. Mae iddo’r ystyr: ‘dilyn trwy wneud yn debyg’. Nid hap yw hi fod Paul yn cysylltu’r efelychu â’n statws ‘fel plant annwyl iddo’, am mai’r prif ffordd y mae babanod a phlant yn dysgu yw drwy gopïo’r rhai o’u cwmpas. Wrth i blentyn ddilyn esiampl rhiant, mae’n derbyn ei ganmol, ac fe atgyfnerthir y patrwm y mae’n ei ddysgu; yn wir, mae’r berthynas rhyngddynt yn cryfhau.

Wrth i ni efelychu bywyd cariad aberthol Crist, daw’r berthynas rhyngom yn ddyfnach ac yn fwy gwir. Nid ffoi o dwrf y byd, ond efelychu a gogoneddu Crist ynddi yw’r alwad ryfeddol i ni fyw yn deilwng ohoni.

Gweddi

Arglwydd Iesu, boed i’m llygaid a’m meddwl fod arnat yn wastadol. Boed i’m llwybr fod yn olion dy draed. Maddau i mi fy llygaid crwydrol, a’m tuedd i ddynwared pethau’r byd. Cadw fi rhag caledu fy nghalon a thristáu dy Ysbryd. Gwna fi yn wir efelychwyr ohonot, yn blentyn annwyl i’m Tad nefol. Boed i mi fyw dy wirionedd yn fy ymarweddiad ac yn fy ymwneud ag eraill. Diolch fod hyn oll ohonot ti â’r bywyd newydd yr wyt yn ei roi i mi trwy dy Ysbryd Glân. Amen.

Emyn 33 – ‘Rho dy fendith, Ysbryd Glân’

Hywel Rhys Edwards,
Y Parc

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [@CennadCymru](https://www.youtube.com/channel/UCqCnDmCmCmCmCmCmCmCmCmC)